Senedd Cymru
**Pwyllgor Senedd y Dyfodol**

# Adolygiad o'r Trothwyon yn y Rheolau Sefydlog

Mawrth 2025

Mae'r adroddiad hwn yn nodi barn Pwyllgor Senedd y Dyfodol ar y trothwyon a bennir ar hyn o bryd yn Rheolau Sefydlog y Senedd ar gyfer nifer yr Aelodau sy'n ofynnol at ddibenion amrywiol.

Mae'r gwaith hwn wedi'i gyflawni yn sgil y disgwyliad y bydd nifer yr Aelodau o'r Senedd yn cynyddu o 60 (ar hyn o bryd) i 96 (o Etholiad nesaf y Senedd, y disgwylir iddo ddigwydd ym mis Mai 2026).

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell, mewn Senedd a chanddi 96 o Aelodau, y dylid cynyddu'r trothwy a bennir yn Rheol Sefydlog 1.3, sy'n ei gwneud yn ofynnol i o leiaf dri Aelod ffurfio grŵp gwleidyddol.................................................................... 10

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod y Pwyllgor Busnes yn ystyried ar ba lefel y dylid pennu trothwy uwch ar gyfer grwpiau gwleidyddol, a hefyd roi ystyriaeth ehangach i'r trothwy ar gyfer grwpiau, hawliau Aelodau nad ydynt mewn grwpiad neu grŵp gwleidyddol, a'r egwyddor bod yr holl Aelodau o'r Senedd yn cael eu galluogi i gymryd rhan yn y broses o benderfynu ar fusnes y Senedd...................................................................................................................................................... 10

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell y dylid cynyddu'r trothwy a bennir yn Rheol Sefydlog 6.26, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynnig i ddiswyddo'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd gael ei gyflwyno gan o leiaf chwe Aelod er mwyn iddo gael ei drafod, i ddeg Aelod; mewn Senedd a chanddi 96 o Aelodau, mae hyn yn gynnydd cyfrannol ac yn golygu y bydd y trothwy hwn yn parhau i fod tua 10 y cant o aelodaeth gyffredinol y Senedd. .............................................................................................12

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell y dylid cynyddu'r trothwy a bennir yn Rheol Sefydlog 8.7, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynnig i ddiswyddo Gweinidogion Cymru gael ei gyflwyno gan o leiaf chwe Aelod er mwyn iddo gael ei drafod, i ddeg Aelod; mae hyn yn gynnydd cyfrannol ac yn golygu y bydd y trothwy hwn yn parhau i fod tua 10 y cant o aelodaeth gyffredinol y Senedd. . 14

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell y dylid cynyddu'r trothwy a bennir yn Rheol Sefydlog 10.8, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynnig i ddiswyddo deiliad swydd berthnasol gael ei gyflwyno gan o leiaf chwe Aelod er mwyn iddo gael ei drafod, i ddeg Aelod; mae hyn yn gynnydd cyfrannol ac yn golygu y bydd y trothwy hwn yn parhau i fod tua 10 y cant o aelodaeth gyffredinol y Senedd. ......16

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell y dylai'r trothwy a bennir yn Rheol Sefydlog 12.33, sy'n ei gwneud yn ofynnol i o leiaf ddeg Aelod fynegi cefnogaeth i gynnig gweithdrefnol cyn cynnal pleidlais, barhau i fod yn ddeg Aelod. ..................17

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell y dylid cynyddu'r trothwy a bennir yn Rheol Sefydlog 12.44, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gloch gael ei chanu cyn

cynnal pleidlais ar gynnig neu welliant os bydd tri Aelod yn gofyn am hynny, fel bod rhaid i bum Aelod wneud cais o’r fath; mae hyn yn gynnydd cyfrannol ac yn golygu y bydd y trothwy hwn yn parhau i fod tua 5 y cant o aelodaeth gyffredinol y Senedd. ..... 18

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell y dylai’r trothwy a bennir yn Rheol Sefydlog 12.46, sy’n ei gwneud yn ofynnol i o leiaf ddeg Aelod gymryd rhan mewn pleidlais er mwyn iddi fod yn ddilys, barhau i fod yn ddeg Aelod. ..... 20

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod y trothwy a bennir yn Rheol Sefydlog 17.2G, sy’n ei gwneud yn ofynnol i enwebiadau Cadeiryddion Pwyllgorau gan Aelodau o grwpiau gwleidyddol sydd â mwy nag 20 o Aelodau gael eu heilio, yn cael ei ddileu, fel ei bod yn ofynnol i bob enwebiad Cadeirydd Pwyllgor gael ei eilio. ..... 22

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod y gofyniad yn Rheol Sefydlog 17.2G, sy’n ei gwneud yn ofynnol i Aelodau sy’n eilio enwebiadau Cadeiryddion Pwyllgorau berthyn i’r un grŵp gwleidyddol â’r Aelod sy’n cael ei enwebu, yn cael ei ddileu, fel bod modd i enwebiad i ethol Cadeirydd Pwyllgor gael ei eilio gan Aelod nad yw’n perthyn i’r un grŵp gwleidyddol â’r Aelod sy’n cael ei enwebu. ..... 22

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Rheol Sefydlog 17.31, sy’n ei gwneud yn ofynnol bod rhaid datgan nad oes cworwm i gyfarfod pwyllgor os bydd llai na thri Aelod, neu lai na thraean o nifer aelodau’r pwyllgor, yn bresennol, yn aros fel y’i drafftiwyd. ..... 25

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Rheol Sefydlog 18.5, sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r “Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus” gynnwys o leiaf pum Aelod a dim mwy na deg Aelod, yn aros fel y’i drafftiwyd. ..... 26

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod Rheol Sefydlog 25.28, sy’n nodi’r amodau sy’n ei gwneud yn ofynnol, os cânt eu bodloni, i’r Pwyllgor Busnes gyfeirio cynnig a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 25.26 i bwyllgor (neu bwyllgorau) i’w ystyried, yn aros fel y’i drafftiwyd. ..... 27

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod Rheol Sefydlog 33.1 yn cael ei diwygio i’w gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Busnes ystyried unrhyw gynnig a wnaed

iddo gan o leiaf ddeg Aelod i ail-wneud neu ddiwygio’r Rheolau Sefydlog, a chyflwyno adroddiad ar y cynnig hwnnw. ....................................................................................29

# 1. Cyflwyniad

## Cylch Gwaith Pwyllgor Senedd y Dyfodol

**1.** Ar 16 Hydref 2024, sefydlodd y Senedd Bwyllgor Senedd y Dyfodol ("y Pwyllgor") i drafod a chyflwyno adroddiadau ar y canlynol (ymhlith pethau eraill):

> *[...] trothwyon a bennir ar hyn o bryd yn y Rheolau Sefydlog ar gyfer nifer yr Aelodau sy'n ofynnol at wahanol ddibenion, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) ffurfio grwpiau gwleidyddol, diswyddo deiliaid swyddi, a chworwm.*

**2.** Gofynnodd y Senedd i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad erbyn 9 Mai 2025.

## Amcan y Pwyllgor

**3.** Yn ein cyfarfod ar 14 Tachwedd 2024, gwnaethom sefydlu ffrwd waith ar gyfer cyflawni'r agwedd ar ein cylch gwaith oedd yn ymwneud â 'throthwyon'.

**4.** Wrth wneud hynny, cytunwyd ar yr amcan a ganlyn:

> *Rhoi barn glir i'r Pwyllgor Busnes ar y lefel briodol ar gyfer pennu pob trothwy yn y Rheolau Sefydlog cyn y Seithfed Senedd.*

**5.** At hynny, gwnaethom hefyd gytuno i gyfyngu cwmpas ein gwaith i'r trothwyon hynny:

- y gellir eu diwygio drwy gynnig y Senedd h.y. nid ydynt yn deillio'n llwyr o statud, nac yn cael eu diffinio gan statud; ac
- y maent yn nodi bod rhaid cael nifer benodol (a/neu beidio â chael mwy na nifer benodol, yn ôl y digwydd) o Aelodau, grwpiau gwleidyddol ac ati, yn hytrach na chyfran.

**6.** Oherwydd hynny, mae nifer o drothwyon sydd wedi'u cynnwys yn Rheolau Sefydlog y Senedd nad ydym wedi'u hystyried. Er enghraifft, mae Rheolau Sefydlog y Senedd yn cynnwys dau fath o drothwy 'mwyafrif dwy ran o dair', sef:

- y rhai y mae angen i o leiaf dwy ran o dair o gyfanswm y seddi yn y Senedd eu cefnogi; ac
- y rhai y mae angen i o leiaf dwy ran o dair o'r rhai sy'n pleidleisio eu cefnogi.

**7.** Gan fod y trothwyon hyn wedi'u pennu fel cyfran o naill ai cyfanswm nifer y seddi yn y Senedd, neu nifer yr Aelodau sy'n pleidleisio, ni fydd eu diben na'u heffaith yn newid mewn Senedd fwy. At hynny, mae gan nifer o'r trothwyon hyn darddiad cyfansoddiadol a/neu gyfreithiol clir.

**8.** Ar y sail hon, ni wnaethom gynnwys trothwyon ‘mwyafrif dwy ran o dair’ fel rhan o’r gwaith hwn.

## Y dull gweithredu

**9.** Er mwyn llywio ein gwaith, gwnaethom:

- ystyried cefndir, pwrpas a defnydd pob Rheol Sefydlog;
- cynnal dadansoddiad cymharol o’r trothwyon sydd wedi’u pennu (neu’r rhai nad ydynt wedi’u pennu, yn ôl y digwydd) mewn deddfwrfeydd eraill; a
- chyhoeddi galwad agored am dystiolaeth ysgrifenedig, a oedd yn cynnwys gwahoddiad i bleidiau gwleidyddol gyflwyno tystiolaeth.

**10.** Lansiwyd ein galwad am dystiolaeth ysgrifenedig ar 27 Tachwedd 2024 a daeth i ben ar 3 Ionawr 2025. Cysylltwyd yn uniongyrchol â phleidiau gwleidyddol ac fe’u gwahoddwyd i gyflwyno ymateb.

**11.** Dim ond dau ymateb ysgrifenedig a gafwyd: un gan Grŵp Plaid Cymru yn y Senedd ac un o Jane Dodds AS.

**12.** Yn olaf, cyfeirir drwy’r adroddiad hwn at Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol a’r Comisiwn Rheolau Sefydlog. Sefydlodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru (ar y pryd) Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Rhagfyr 1997 i’w gynorthwyo i baratoi canllawiau i’r Comisiwn Rheolau Sefydlog. Ar ôl cael y canllawiau hyn, cyflwynodd y Comisiwn Rheolau Sefydlog wedyn Reolau Sefydlog y Cynulliad Cyntaf.

# 2. Grwpiau Gwleidyddol (Rheol Sefydlog 1.3)

**13.** Mae’r diffiniad o grwpiau gwleidyddol yn effeithio’n eang ar weithrediad y Senedd, gan gynnwys mewn perthynas ag aelodaeth Comisiwn y Senedd a’r Pwyllgor Busnes, trefnu busnes y Cyfarfod Llawn, ac aelodaeth pwyllgorau'r Senedd a'r broses o graffu ar ddeddfwriaeth.

**14.** Mae grwpiau gwleidyddol hefyd yn cael cymorth ariannol, sy'n cael ei bennu gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol a'i gynnwys yn y Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau.

**15.** Er mwyn llywio ein gwaith, gwnaethom gynnal dadansoddiad cymharol o seneddau o bob rhan o’r byd sydd tua’r un maint (â Senedd a chanddi 96 o Aelodau).

**16.** Edrychodd ein gwaith ymchwil yn fanwl ar 15 o ddeddfwrfeydd (yr oedd ganddynt un siambr neu dŷ isaf), ar lefel gwladwriaeth ac is-wladwriaeth, yr oedd ganddynt rhwng 75 a 115 o Aelodau, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithredu o dan systemau etholiadol cynrychiolaeth gyfrannol. Yn ogystal â hyn, edrychodd y gwaith ymchwil ar Senedd yr Alban a Dáil Éierann fel cymaryddion agos, a Chynulliad Deddfwriaethol New Brunswick.

**17.** O'r deddfwrfeydd hyn, y lleiafswm ar gyfartaledd ar gyfer grŵp gwleidyddol yw 5 y cant o'r aelodaeth. Mae hyn yn amrywio o 2 y cant yng Nghynulliad Deddfwriaethol British Columbia i 10y cant yng Nghynulliad Deddfwriaethol New Brunswick.

**18.** O ran nifer, y lleiafswm mwyaf cyffredin yw pum aelod (mewn deg o'r 15 senedd), tra bod rhai seneddau lle nad oes lleiafswm penodol ac eraill lle ceir lleiafswm o ddau neu dri aelod.

**19.** Gwnaethom nodi’r newidiadau perthnasol i’r Rheolau Sefydlog a wnaed yn y Bumed Senedd. Cytunodd y Senedd ar newidiadau i Reol Sefydlog 1.3 a chreodd Reol Sefydlog 1.3A newydd. Cynigiwyd y newidiadau gan y Pwyllgor Busnes mewn ymateb i’r ffaith bod *“aelodaeth y grwpiau gwleidyddol a’r broses*

*o ffurfio a diddymu'r grwpiau hyn wedi bod yn fwy cyfnewidiol nag erioed o'r blaen"*.[1]

**20.** Effaith y newidiadau yw:

- Cyfyngu'r gallu i greu grwpiau gwleidyddol 'yn awtomatig' i'r rhai sy'n cynnwys Aelodau sy'n perthyn i'r un blaid wleidyddol gofrestredig a enillodd sedd neu seddi yn etholiad cyffredinol diweddaraf y Senedd;
- Galluogi tri neu ragor o Aelodau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf yn Rheol Sefydlog 1.3(i) i gael eu cydnabod fel grŵp gwleidyddol os yw'r Llywydd yn fodlon bod amgylchiadau eithriadol yn gymwys; ac
- Ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd gyhoeddi canllawiau ysgrifenedig i Aelodau ar ddehongli Rheol Sefydlog 1.3(ii). Yn unol â Rheol Sefydlog 6.17, rhaid cyhoeddi'r canllawiau hynny ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes (mae'r canllawiau wedi'u cynnwys yn Atodiad C).

## Y safbwyntiau a gafwyd

**21.** Roedd y safbwyntiau a gafwyd, neu a fynegwyd gan aelodau'r Pwyllgor ar ran eu grwpiau gwleidyddol, yn cefnogi cynyddu'r trothwy presennol o dri Aelod, o ddechrau'r Seithfed Senedd.

**22.** Mynegwyd gwahanol safbwyntiau o ran y lefel a fyddai'n briodol ar gyfer pennu trothwy uwch.

**23.** Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad dywedodd Grŵp Senedd Plaid Cymru "*y dylai'r Rheol Sefydlog ar gyfer maint Grwpiau gwleidyddol warchod llais pleidiau llai a sicrhau chwarae teg i bob Aelod o'r Senedd*", ac y "*byddai cynyddu'r trothwy yn sylweddol yn anghymesur ac yn tanseilio'r egwyddor bwysig hon*".

**24.** Ategwyd y farn hon hefyd gan Jane Dodds AS a ddywedodd, mewn llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor, ei bod yn credu'n gryf y dylid gallu ffurfio grŵp yn y

---

[1] Y Pwyllgor Busnes, Diwygio Rheolau Sefydlog: Diffinio grwpiau gwleidyddol, Mawrth 2021, paragraff 6

Senedd nesaf pan fo plaid yn cynrychioli 5 y cant o’r Aelodau o’r Senedd, ac y byddai’r newid hwn yn adlewyrchu cynrychiolaeth y pleidiau llai yn well ac yn sicrhau bod lleisiau amrywiol yn cael eu cynrychioli’n ddigonol yn ein proses ddeddfwriaethol.[2]

**25.** Fel arall, mynegodd rhai o aelodau'r Pwyllgor y farn, ar ran eu grwpiau gwleidyddol, y dylid pennu’r trothwy yn nes at 10 y cant o’r Aelodau o'r Senedd, sef trothwy o tua deg Aelod mewn Senedd a chanddi 96 o Aelodau. Maent yn credu y bydd y cynnydd hwn o ran lleiafswm maint grŵp gwleidyddol yn annog mwy o sefydlogrwydd mewn Senedd fwy, ac yn dangos lefel briodol o gefnogaeth etholiadol i gyfiawnhau’r breintiau a ddaw yn sgil cael eich cydnabod fel grŵp gwleidyddol.

## Ein barn ni

Credwn y bydd angen i’r trothwy presennol (o dri Aelod) i ffurfio grŵp gwleidyddol gynyddu mewn Senedd a chanddi 96 o Aelodau.

Nid ydym wedi dod i gytundeb ynghylch y lefel a fyddai’n briodol ar gyfer pennu trothwy uwch. Mae barn grwpiau gwleidyddol presennol y Senedd yn amrywio o gredu y dylai cyfran yr Aelodau sy’n ofynnol i ffurfio grŵp gwleidyddol aros yr un fath, hynny yw 5 y cant (a fyddai’n cyfateb i bum aelod mewn Senedd a chanddi 96 o Aelodau), i bennu trothwy uwch o 10 y cant (a fyddai’n cyfateb i ddeg o Aelodau mewn Senedd a chanddi 96 o Aelodau).

Ochr yn ochr â Rheol Sefydlog 1.3, gwnaethom hefyd drafod Rheol Sefydlog 11, sy’n cynnwys darpariaeth i Aelodau nad ydynt yn perthyn i grŵp gwleidyddol ffurfio “grwpiad” at ddiben cael eu cynrychioli ar y Pwyllgor Busnes. Yng nghyd-destun rôl y Pwyllgor Busnes o ran cytuno ar drefn busnes y Senedd, mae’r Rheol Sefydlog hon yn darparu mecanwaith pwysig i Aelodau nad ydynt mewn grwpiau gwleidyddol sicrhau bod eu barn yn cael ei chynrychioli yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Busnes, a bod eu pleidleisiau’n cael eu cyfrif pan fydd y Pwyllgor Busnes yn gwneud penderfyniadau.

[2] Llythyr oddi wrth Jane Dodds AS, 29 Ionawr 2025

O ganlyniad, wrth drafod Rheol Sefydlog 1.3 a Rheol Sefydlog 11 (gan gynnwys y lefelau a fyddai’n briodol ar gyfer pennu trothwyon ar eu cyfer) bydd angen cynnwys asesiad o’u heffaith bosibl ar aelodaeth y Pwyllgor Busnes, nifer yr Aelodau sydd â hawl i fod yn bresennol a phleidleisio yn y Pwyllgor Busnes, a’r egwyddor sylfaenol o alluogi’r holl Aelodau i gael dweud eu dweud ar fusnes y Senedd.

Yn sgil y goblygiadau ehangach hyn, sy’n cyffwrdd ar faterion o egwyddor sy’n mynd y tu hwnt i drafod y trothwyon yn unig, credwn fod y Pwyllgor Busnes mewn sefyllfa well nag yr ydym ni i drafod ar ba lefel y dylid pennu’r trothwy ar gyfer grwpiau gwleidyddol, a materion cysylltiedig.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell, mewn Senedd a chanddi 96 o Aelodau, y dylid cynyddu’r trothwy a bennir yn Rheol Sefydlog 1.3, sy’n ei gwneud yn ofynnol i o leiaf dri Aelod ffurfio grŵp gwleidyddol.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod y Pwyllgor Busnes yn ystyried ar ba lefel y dylid pennu trothwy uwch ar gyfer grwpiau gwleidyddol, a hefyd roi ystyriaeth ehangach i’r trothwy ar gyfer grwpiau, hawliau Aelodau nad ydynt mewn grwpiad neu grŵp gwleidyddol, a’r egwyddor bod yr holl Aelodau o’r Senedd yn cael eu galluogi i gymryd rhan yn y broses o benderfynu ar fusnes y Senedd.

# 3. Ymddiswyddiad neu Ddiswyddiad o ran y Llywydd neu'r Dirprwy (Rheol Sefydlog 6.26)

**26.** Os bydd o leiaf chwe Aelod yn cyflwyno cynnig i ddiswyddo’r Llywydd neu’r Dirprwy Lywydd, mae Rheol Sefydlog 6.26 yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid iddo gael ei drafod cyn gynted â phosibl ac o fewn pum diwrnod gwaith i gyflwyno’r cynnig.

**27.** Mae adran 25(5)(c) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (“Deddf 2006”) yn darparu y caiff y Senedd ddiswyddo’r Llywydd neu’r Dirprwy Lywydd. Mae Rheol Sefydlog 6.26 yn rhoi effaith i’r ddarpariaeth hon ac yn darparu mecanwaith ar gyfer diswyddo’r Llywydd a’r Dirprwy Lywydd.

**28.** Y tu hwnt i ofyniad Deddf 2006 i'r Rheolau Sefydlog ddarparu mecanwaith i'r Senedd ddiswyddo'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd, nid yw'n gwneud unrhyw amod pellach ynghylch ffurf a/neu swyddogaeth y mecanwaith hwnnw. Felly, o ran y trothwy chwe Aelod – ar gyfer trafod unrhyw gynnig – gofyniad o dan y Rheolau Sefydlog ydyw, yn hytrach nag un cyfreithiol.

**29.** Mae'r "trothwy chwe Aelod" (ar gyfer trafod cynnig o ddiffyg hyder) wedi'i nodi yn Rheolau Sefydlog y Senedd ers y Cynulliad Cyntaf.

**30.** Nid yw adroddiad Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol nac adroddiad y Comisiwn Rheolau Sefydlog yn cyfeirio at ddiswyddo'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd. Fodd bynnag, wrth ymateb i'r gofyniad yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998 ("Deddf 1998") y dylai Rheolau Sefydlog y Cynulliad gynnwys darpariaeth ar gyfer pleidlais o ddiffyg hyder yn y Prif Weinidog, nodwn fod adroddiad Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol yn argymell bod rhaid i gynigion o ddiffyg hyder yn y Prif Weinidog gael eu cefnogi gan o leiaf chwe Aelod Cynulliad cyn y gellir eu trafod.[3]

**31.** Er nad yw adroddiad Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnig rhesymeg dros y trothwy chwe Aelod hwn, mae'n awgrymu o bosibl y byddai'r un trothwy yn gymwys i'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd hefyd. Nodwn hefyd fod chwe Aelod yn cyfateb i 10 y cant o aelodaeth bresennol y Senedd.

**32.** O ran defnyddio'r rheol, hyd yma, ni chyflwynwyd unrhyw gynnig o ddiffyg hyder yn y Llywydd na'r Dirprwy Lywydd.

## Ein barn ni

Credwn y dylai'r trothwy ar gyfer cyflwyno cynnig i ddiswyddo Llywydd neu Ddirprwy Lywydd aros ar 10 y cant o aelodaeth gyffredinol y Senedd. Mewn Senedd a chanddi 96 o Aelodau, byddai hyn yn golygu cynnydd o chwe Aelod, fel y mae ar hyn o bryd, i ddeg Aelod, sef ychydig dros 10 y cant.

[3] Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol, Adroddiad i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Awst 1998, paragraff 33

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell y dylid cynyddu’r trothwy a bennir yn Rheol Sefydlog 6.26, sy’n ei gwneud yn ofynnol i gynnig i ddiswyddo’r Llywydd neu’r Dirprwy Lywydd gael ei gyflwyno gan o leiaf chwe Aelod er mwyn iddo gael ei drafod, i ddeg Aelod; mewn Senedd a chanddi 96 o Aelodau, mae hyn yn gynnydd cyfrannol ac yn golygu y bydd y trothwy hwn yn parhau i fod tua 10 y cant o aelodaeth gyffredinol y Senedd.

# 4. Ymddiswyddiad etc. Prif Weinidog Cymru neu Aelod arall o’r Llywodraeth (Rheol Sefydlog 8.7)

**33.** Yn wreiddiol, roedd adran 53 o Ddeddf 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i Reolau Sefydlog y Cynulliad (ar y pryd) gynnwys darpariaeth ar gyfer pleidlais o ddiffyg hyder yn y Prif Weinidog.

**34.** Felly, roedd Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cyntaf a'r Ail Gynulliad yn cynnwys darpariaeth benodol ar gyfer trafod cynnig o ddiffyg hyder yn y Prif Ysgrifennydd/Prif Weinidog, gyda'r trothwy ar gyfer cyflwyno cynnig i’w drafod yn parhau i fod yn chwe Aelod.

**35.** Yna, diddymodd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 adran 53 o Ddeddf 1998 a chyflwyno’r darpariaethau a ganlyn, a ddaeth i rym yn syth ar ôl etholiad y Cynulliad yn 2007:

> <u>Adran 47</u>
>
> 47(1) If one of the following events occurs, the Senedd must, before the end of the relevant period, nominate a Member of the Senedd for appointment as First Minister.
>
> 47(2) The events are-
>
> ...
>
> (b) the Senedd resolving that the Welsh Ministers no longer enjoy the confidence of the Senedd,

Adran 48

(5) A Welsh Minister appointed under this section must resign if the Senedd resolves that the Welsh Ministers no longer enjoy the confidence of the Senedd.

Adran 50

(5) A Deputy Welsh Minister must resign if the Senedd resolves that the Welsh Ministers no longer enjoy the confidence of the Senedd.

**36.** O ganlyniad, diweddarwyd Rheolau Sefydlog y Trydydd Cynulliad ac maent wedi aros ar eu ffurf bresennol drwy bob Cynulliad/Senedd ers hynny, gyda'r trothwy ar gyfer trafod unrhyw gynnig yn aros ar chwe Aelod.

**37.** Er bod sawl cynnig sy'n cyfeirio at 'ddiffyg hyder' mewn Gweinidogion unigol wedi'u cyflwyno a’u trafod yn ystod amser yr wrthblaid, nid oes unrhyw gynigion yn mynegi “diffyg hyder” yng Ngweinidogion Cymru fel grŵp wedi'u cyflwyno o dan y Rheol Sefydlog 8.7 bresennol.

**38.** Mae hyn yn cyffwrdd ar wahaniaeth pwysig. Mae dau fath o gynnig “diffyg hyder” yng nghyd-destun y Senedd:

- y rhai y caniateir eu cyflwyno o dan Reol Sefydlog 6.26 (y Llywydd neu’r Dirprwy Lywydd), Rheol Sefydlog 8.7 (Gweinidogion Cymru), a Rheol Sefydlog 10.8 (deiliaid swyddi perthnasol), a gyflwynir yn unol â’r adran berthnasol o Ddeddf 2006 ac sy’n gyfreithiol-rwymol; a

- chynigion cyffredinol y mae eu geiriad yn galw am ddiswyddo deiliad swydd, ond nad ydynt yn cael eu cyflwyno o dan y Rheolau Sefydlog penodol hyn, hynny yw, y cynigion hynny y gellir eu cyflwyno fel dadleuon yr wrthblaid.

**39.** Nid yw’r ail fath hwn o gynnig yn gyfreithiol-rwymol ac nid yw’n ofynnol iddo fodloni’r un meini prawf â’r cyntaf, o ran y trothwy ar gyfer ei drafod a’r amser erbyn pryd y mae’n rhaid ei drafod.

**40.** Mae ein tasg ni’n ymwneud â’r math cyntaf o gynnig, a’r trothwy ar gyfer cyflwyno cynigion o’r fath fel y nodir yn y Rheolau Sefydlog.

**41.** Yn ystod ein trafodaethau, buom yn ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio'r naill fath neu'r llall o gynnig yn flinderus, a'r effaith negyddol y gallai hyn ei chael ar allu'r Senedd i weithredu'n effeithiol, ac ar lesiant deiliad y swydd, neu ddeiliaid swyddi perthnasol, a oedd yn destun i gynigion o'r fath.

## Ein barn ni

Yn yr un modd â'n barn ar Reol Sefydlog 6.26 (uchod), credwn y dylai'r trothwy ar gyfer cyflwyno cynnig i benderfynu nad oes gan y Senedd hyder yng Ngweinidogion Cymru mwyach barhau ar 10 y cant o aelodaeth gyffredinol y Senedd, ac felly y dylid ei gynyddu o chwe Aelod i ddeg Aelod.

Ar gyfer cynigion a gyflwynir o dan Reolau Sefydlog 6.26, 8.7 a 10.8, buom yn ystyried a allai'r Rheolau Sefydlog bennu rheolaethau ychwanegol, i atal defnydd blinderus o'r cynigion hyn. Er enghraifft, pennu'r amser y mae'n rhaid iddo fynd heibio cyn y caniateir cyflwyno cynnig arall o'r fath yn ymwneud â'r un deiliad swydd (neu ddeiliaid swyddi) os derbynnir y cynnig cyntaf, neu ei gwneud yn ofynnol i gynigion o'r fath gael eu cefnogi gan Aelodau o ddau grŵp gwleidyddol o leiaf.

Daethom i'r casgliad na allai'r Rheolau Sefydlog bennu rheolaethau ychwanegol heb wrthdaro, o bosibl, â darpariaethau Deddf 2006 sy'n darparu ar gyfer trafod cynigion o'r fath.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell y dylid cynyddu'r trothwy a bennir yn Rheol Sefydlog 8.7, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynnig i ddiswyddo Gweinidogion Cymru gael ei gyflwyno gan o leiaf chwe Aelod er mwyn iddo gael ei drafod, i ddeg Aelod; mae hyn yn gynnydd cyfrannol ac yn golygu y bydd y trothwy hwn yn parhau i fod tua 10 y cant o aelodaeth gyffredinol y Senedd.

# 5. Diswyddo (Rheol Sefydlog 10.8)

**42.** Bydd Rheol Sefydlog 10 yn gymwys mewn perthynas â swydd gyhoeddus os bydd yn ofynnol penodi rhywun i'r swydd honno, gan neu o dan unrhyw ddeddfiad a wneir:

- gan y Senedd; neu

- ar sail enwebiad neu argymhelliad y Senedd, neu
- gyda chymeradwyaeth y Senedd.

**43.** Nid yw Rheol Sefydlog 10 yn gymwys i swydd os gwneir darpariaeth ar gyfer penodi i’r swydd honno rywle arall yn y Rheolau Sefydlog.

**44.** Yn yr un modd â’r Llywydd, y Dirprwy Lywydd a Gweinidogion Cymru, mae’r Rheol Sefydlog hon yn darparu mecanwaith cyfatebol (gan gynnwys trothwy chwe Aelod) i’r Senedd ddiswyddo unrhyw ddeiliad swydd perthnasol (yn ddarostyngedig i unrhyw amodau a osodir gan unrhyw ddeddfiad sy’n ymwneud â'r swydd benodol honno).

**45.** Cyflwynwyd y Rheol Sefydlog hon yn y Pedwerydd Cynulliad. Yn ei adolygiad o’r Rheolau Sefydlog wrth baratoi ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad, daeth y Pwyllgor Busnes i’r casgliad a ganlyn:

> […] dylid cael Rheol Sefydlog newydd yn egluro gweithdrefn gyson ar gyfer penodi (a diswyddo) deiliaid swyddi allanol nad oes cyfeiriad atynt fel arall mewn Rheolau Sefydlog.[4]

**46.** Wrth esbonio effaith y Rheol Sefydlog, nododd y Pwyllgor Busnes:

> This provides that the Assembly may also remove a person from office by resolution, subject to any statutory requirements.
>
> Any Member could table a motion to remove a person from office. It would be a matter for Business Committee to decide whether to allocate time for that motion to be debated in Plenary. However, this Standing Order provides that if at least six Members table a motion, the Business Committee would have to make time available for it to be debated within five working days. This is the

[4] Y Pwyllgor Busnes, Adolygu'r Rheolau Sefydlog i baratoi ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad, Mawrth 2011, paragraff 29

same approach as applies to any motion to remove from office the Presiding Officer or Deputy or a motion of no-confidence in Welsh Ministers.[5]

**47.** Er nad yw esboniad y Pwyllgor Busnes o'i resymau yn rhoi rhesymeg dros osod trothwy penodol o chwe Aelod, mae'n cadarnhau barn y Pwyllgor Busnes y dylid gosod y trothwy ar lefel sy'n gyson â'r gweithdrefnau cyfatebol sy'n ofynnol mewn perthynas â'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd a Gweinidogion Cymru.

**48.** Hyd yma, nid oes unrhyw gynnig i ddiswyddo deiliad swydd berthnasol wedi'i gyflwyno.

### Ein barn ni

Yn unol â’n barn ynghylch Rheolau Sefydlog 8.7 a 10.8 (uchod), roedd consensws cyffredinol y dylid cynyddu'r trothwy chwe Aelod presennol ar gyfer cyflwyno cynnig i ddiswyddo deiliad swydd berthnasol yn gyfrannol yn unol â’r nifer uwch o Aelodau, hynny yw, cynnydd o 10 y cant a fydd yn cyfateb i ddeg Aelod yn y Seithfed Senedd.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell y dylid cynyddu’r trothwy a bennir yn Rheol Sefydlog 10.8, sy’n ei gwneud yn ofynnol i gynnig i ddiswyddo deiliad swydd berthnasol gael ei gyflwyno gan o leiaf chwe Aelod er mwyn iddo gael ei drafod, i ddeg Aelod; mae hyn yn gynnydd cyfrannol ac yn golygu y bydd y trothwy hwn yn parhau i fod tua 10 y cant o aelodaeth gyffredinol y Senedd.

## 6. Cynigion Gweithdrefnol (Rheol Sefydlog 12.33)

**49.** Mae Rheol Sefydlog benodol sy'n ymwneud â chynigion gweithdrefnol wedi'i chynnwys yn y Rheolau Sefydlog ers y Cynulliad Cyntaf. O ran

[5] Y Pwyllgor Busnes, Adolygu'r Rheolau Sefydlog i baratoi ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad, Mawrth 2011, paragraff 29, tud 261 (Saesneg yn unig)

gweithdrefnau, gwnaed yr argymhelliad a ganlyn yn adroddiad Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol:

> Argymhellwn fod y Comisiwn Rheolau Sefydlog yn ystyried y gwahanol fathau o gynigion a dadleuon y gellir eu cael yn y Cynulliad llawn.[6]

**50.** Wedi hynny, ystyriodd y Comisiwn Rheolau Sefydlog argymhelliad y Grŵp Ymgynghorol, gan benderfynu cynnwys Rheol Sefydlog 'cynnig gweithdrefnol' yn ei Reolau Sefydlog Drafft. Roedd y Rheol Sefydlog hon yn cynnwys trothwy o ddeg Aelod, lle caiff y Llywydd gynnal pleidlais ar gynnig gweithdrefnol dim ond os bydd o leiaf ddeg Aelod yn mynegi eu cefnogaeth. Mae'r gofyniad hwn wedi aros yn gyson drwy bob fersiwn o Reolau Sefydlog y Cynulliad/Senedd.

**51.** Er na nodwyd unrhyw resymau yn adroddiad y Comisiwn Rheolau Sefydlog dros bennu'r trothwy ar ddeg Aelod yn benodol, mae deg Aelod yn un rhan o chwech o aelodaeth bresennol y Senedd.

**52.** O ran defnyddio'r rheol, mae'r Cynulliad/Senedd wedi cyflwyno ac wedi cytuno ar nifer o gynigion gweithdrefnol. Mae'r mwyafrif o'r cynigion hyn yn ymwneud â gohirio busnes y Cyfarfod Llawn.

## Ein barn ni

> Er y nodwn fod y trothwy presennol yn cyfateb i un rhan o chwech o aelodaeth y Senedd, credwn y bydd y nifer hon yn parhau i fod yn ddigon mewn Senedd a chanddi 96 o Aelodau. Bydd deg Aelod yn dal i gynrychioli amrywiaeth o Aelodau a chyfran sylweddol o aelodaeth y Senedd mewn Senedd fwy a chanddi 96 o Aelodau.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell y dylai'r trothwy a bennir yn Rheol Sefydlog 12.33, sy'n ei gwneud yn ofynnol i o leiaf ddeg Aelod fynegi cefnogaeth i gynnig gweithdrefnol cyn cynnal pleidlais, barhau i fod yn ddeg Aelod.

---

[6] Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol, Adroddiad i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Awst 1998, paragraff 29

# 7. Penderfynu ar Gynigion a Gwelliannau (Rheol Sefydlog 12.44)

**53.** Mae Rheol Sefydlog benodol sy'n gofyn am ganu'r gloch cyn cynnal pleidlais (pan fodlonir amodau penodol) wedi'i chynnwys yn y Rheolau Sefydlog ers y Cynulliad Cyntaf.

**54.** Ers y Cynulliad Cyntaf, mae’r Rheol Sefydlog wedi’i diweddaru i:

- Gyflwyno trothwy tri Aelod, lle mae'n rhaid i dri Aelod ofyn am i'r gloch gael ei chanu cyn pleidlais (yn wreiddiol, roedd y Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i'r gloch gael ei chanu ‘pan elwir un neu ragor o bleidleisiau cadarnhaol’);
- Mynnu bod y gloch yn cael ei chanu unwaith yn unig os bydd pleidleisiau i'w cynnal yn syth ar ôl ei gilydd;
- Dileu cyfeiriad penodol at gyfrifoldebau’r Llywydd mewn perthynas â chau a chyhoeddi’r bleidlais; a
- Dileu cyfeiriad penodol at gofnodi'r bleidlais yng nghofnod y trafodion.

**55.** Mae’r Rheol Sefydlog hon (gan gynnwys fersiynau blaenorol ohoni) wedi’i defnyddio sawl gwaith ers sefydlu’r Cynulliad ac mae’n arfer gweddol gyffredin.

## Ein barn ni

Mae tri Aelod yn cyfateb i 5 y cant o aelodaeth bresennol y Senedd ac ni welwn unrhyw reswm dros newid y ganran hon mewn Senedd a chanddi 96 o Aelodau.

Credwn felly y dylid cynyddu'r trothwy hwn i bum Aelod, sef ychydig dros 5 y cant o aelodaeth gynyddol y Senedd.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell y dylid cynyddu’r trothwy a bennir yn Rheol Sefydlog 12.44, sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r gloch gael ei chanu cyn cynnal pleidlais ar gynnig neu welliant os bydd tri Aelod yn gofyn am hynny, fel bod rhaid i bum Aelod wneud cais o’r fath; mae hyn yn gynnydd cyfrannol ac yn

golygu y bydd y trothwy hwn yn parhau i fod tua 5 y cant o aelodaeth gyffredinol y Senedd.

# 8. Penderfynu ar Gynigion a Gwelliannau (Rheol Sefydlog 12.46)

**56.** Cafodd y Rheol Sefydlog hon ei chynnwys yn y fersiwn gyntaf o'r Rheolau Sefydlog ac nid yw wedi newid; mae'n pennu'r trothwy ar gyfer cworwm wrth bleidleisio yn y Cyfarfod Llawn, sef deg Aelod, ac yn ei gwneud yn ofynnol, os bydd llai na deg Aelod yn cymryd rhan mewn pleidlais, bod rhaid gohirio'r bleidlais honno.

**57.** Nid yw'r trothwy a nodir yn y Rheol Sefydlog yn ofynnol gan statud (nac yn deillio o statud), ac ni chyfeirir ati'n benodol yn adroddiad Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol nac adroddiad Rheolau Sefydlog Drafft y Comisiwn Rheolau Sefydlog.

**58.** Er na chynigir unrhyw resymeg dros y trothwy deg Aelod yn y dogfennau perthnasol, mae'n werth nodi bod deg Aelod yn cyfateb i un rhan o chwech o aelodaeth bresennol y Senedd.

**59.** Er bod y trothwy deg Aelod ar gyfer cworwm wedi bod ar waith ers sefydlu'r Cynulliad, cytunodd y Senedd i wyro o'r rheol gyffredinol hon yn ystod pandemig COVID-19.

**60.** Cytunodd y Senedd i leihau cworwm er mwyn i bleidlais fod yn ddilys i bedwar Aelod lle bo angen i ddiogelu iechyd y cyhoedd mewn ymateb i COVID-19. Nid oedd y Rheol Sefydlog hon yn diwygio Rheol Sefydlog 12.46 ond roedd yn cael blaenoriaeth drosti; daeth i ben ar 1 Awst 2022 pan ganiatawyd i Reol Sefydlog 35 (Gweithdrefnau Brys) dros dro ddod i ben.

## Ein barn ni

Yn yr un modd â'n safbwyntiau ynghylch cynigion gweithdrefnol (Rheol Sefydlog 12.33), ni welwn unrhyw reswm dros newid y trothwy yn y Rheol Sefydlog hon. Bydd deg Aelod yn dal i gynrychioli amrywiaeth a chyfran sylweddol o aelodaeth y Senedd mewn Senedd fwy a chanddi 96 o Aelodau.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell y dylai'r trothwy a bennir yn Rheol Sefydlog 12.46, sy'n ei gwneud yn ofynnol i o leiaf ddeg Aelod gymryd rhan mewn pleidlais er mwyn iddi fod yn ddilys, barhau i fod yn ddeg Aelod.

# 9. Ethol Cadeiryddion Pwyllgorau (Rheol Sefydlog 17.2G)

**61.** Cyflwynwyd Rheolau Sefydlog yn ymwneud ag ethol cadeiryddion pwyllgorau ym mis Mehefin 2016, ar ddechrau'r Bumed Senedd. Yn ei adroddiad i gyd-fynd â'r newidiadau arfaethedig, esboniodd y Pwyllgor Busnes:

> Tŷ'r Cyffredin a ddarparodd y model amgen mwyaf amlwg ar gyfer dethol, penodi a diswyddo cadeiryddion pwyllgorau. Ers 2010, mae'r Tŷ cyfan wedi cytuno ar ddosbarthiad y cadeiryddion o blith pob plaid wleidyddol drwy gynnig a gyflwynir ar y cyd gan gynrychiolwyr o bob plaid, yna caiff cadeiryddion ac aelodau pwyllgorau adrannol a phwyllgorau dethol tebyg eu hethol gan y Tŷ cyfan drwy bleidlais gyfrinachol.[7]

**62.** Felly, cynigiodd y Pwyllgor Busnes "weithdrefn arfaethedig, sy'n seiliedig ar fodel Tŷ'r Cyffredin ond sydd wedi'i addasu at ddibenion y Cynulliad"[8].

**63.** Yn benodol, mewn cysylltiad â'r trothwy a bennir yn Rheol Sefydlog 17.2G, dywedodd y Pwyllgor Busnes:

> O dan Reol Sefydlog 17.2F newydd arfaethedig caiff ymgeiswyr eu henwebu gan aelod o'u grwpiau eu hunain. O gofio pa mor fach yw'r Cynulliad, ni chynigir cynnwys gofyniad i ymgeisydd gael ei eilio gan Aelod arall, heblaw yn achos grwpiau o fwy nag 20 Aelod.
>
> Mae'r drefn hon ychydig yn wahanol i'r system a ddefnyddir yn Nhŷ'r Cyffredin, sydd â llawer mwy o aelodau a lle y mae angen i Aelod gael ei enwebu gan 15 o

[7] Y Pwyllgor Busnes, Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 17 – Gweithredu Pwyllgorau, Mehefin 2016, paragraff 5
[8] Y Pwyllgor Busnes, Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 17 – Gweithredu Pwyllgorau, Mehefin 2016, paragraff 6

Aelodau o'r un blaid, neu 10 y cant o Aelodau'r blaid, pa un bynnag yw'r lleiaf, a lle y gall cefnogwyr o bleidiau eraill lofnodi datganiad o gefnogaeth er nad yw'n cyfrif tuag at y trothwy enwebu. Mae'r broses enwebu arfaethedig yn adlewyrchu trafodaeth y Pwyllgor Busnes ynghylch yr hyn sy'n ymarferol ac yn ddymunol mewn sefydliad llai o faint.

**64.** Ers cyflwyno Rheol Sefydlog 17.2G yn 2016, glynwyd wrthi ar gyfer enwebu cadeiryddion Pwyllgorau, lle bu'n ofynnol i grwpiau gwleidyddol sydd â mwy nag 20 o Aelodau eilio eu henwebiadau. Ni fu unrhyw achos o Aelod yn cael ei enwebu heb fod yr enwebiad wedi'i eilio yn y Cyfarfod Llawn, ond wrth gwrs nid oes modd gwybod faint o enwebiadau posibl na chawsant eu cynnig am fod yr enwebydd wedi methu â dod o hyd i eilydd.

## Ein barn ni

Mae Rheol Sefydlog 17.2G yn ei gwneud yn ofynnol i enwebiadau Cadeiryddion Pwyllgorau gan grwpiau gwleidyddol sydd â mwy nag 20 o Aelodau gael eu heilio. Fel y gwelir yn esboniad y Pwyllgor Busnes o'r trothwy, fe'i pennwyd mewn ymateb i faint bach y Cynulliad (ar y pryd), sy'n golygu nad oes angen eilio enwebiadau Cadeiryddion Pwyllgorau gan Aelodau o grwpiau gwleidyddol sydd â llai nag 20 o Aelodau.

Yn sgil cynyddu aelodaeth y Senedd, ni chredwn y bydd angen y trothwy hwn mwyach, sydd i bob pwrpas yn cadw 'gofyniad eilydd' ar gyfer y grwpiau gwleidyddol mwy. Credwn y dylai fod yn ofynnol i bob enwebiad Cadeirydd Pwyllgor gael ei eilio.

Yn ogystal â chael gwared ar y trothwy 20 o Aelodau, credwn y dylid hefyd ddileu'r gofyniad i'r eilydd fod yn aelod o'r grŵp gwleidyddol sy'n cael ei enwebu. Pob tro y rhoddir enwebiad ar gyfer Cadeirydd Pwyllgor, bydd hyn yn golygu y caniateir iddo gael ei eilio gan Aelod o grŵp gwleidyddol gwahanol i'r Aelod sy'n cael ei enwebu.

Ni fyddai dileu'r gofyniad hwn yn atal grwpiau gwleidyddol rhag eilio eu henwebiadau eu hunain, ond byddai'n gwneud y broses o ethol Cadeirydd Pwyllgor yn fwy cydnaws â natur gydweithredol a thrawsbleidiol gwaith y pwyllgorau. Byddai hyn hefyd yn ffordd i Aelodau o grwpiau gwleidyddol llai

liniaru unrhyw effaith y gallai maint eu grŵp ei chael ar eu gallu i gael eu hethol yn Gadeirydd Pwyllgor.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod y trothwy a bennir yn Rheol Sefydlog 17.2G, sy’n ei gwneud yn ofynnol i enwebiadau Cadeiryddion Pwyllgorau gan Aelodau o grwpiau gwleidyddol sydd â mwy nag 20 o Aelodau gael eu heilio, yn cael ei ddileu, fel ei bod yn ofynnol i bob enwebiad Cadeirydd Pwyllgor gael ei eilio.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod y gofyniad yn Rheol Sefydlog 17.2G, sy’n ei gwneud yn ofynnol i Aelodau sy’n eilio enwebiadau Cadeiryddion Pwyllgorau berthyn i’r un grŵp gwleidyddol â’r Aelod sy’n cael ei enwebu, yn cael ei ddileu, fel bod modd i enwebiad i ethol Cadeirydd Pwyllgor gael ei eilio gan Aelod nad yw’n perthyn i’r un grŵp gwleidyddol â’r Aelod sy’n cael ei enwebu.

# 10. Cworwm (Rheol Sefydlog 17.31)

**65.** Mae Rheol Sefydlog 17.31 yn ei gwneud yn ofynnol bod “rhaid datgan nad oes cworwm i gyfarfod pwyllgor os bydd llai na thri Aelod neu lai na thraean o nifer aelodau’r pwyllgor, pa un bynnag yw'r mwyaf, yn bresennol.”

**66.** O ran cworwm mewn cyfarfodydd pwyllgor, argymhellwyd fel a ganlyn yn adroddiad Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol:

- y dylai’r cworwm ar gyfer cyfarfod pwyllgor fod yn un rhan o dair o’r aelodau (wedi’i thalgrynnu i fyny);
- pan fydd pwyllgor yn pleidleisio ar fater, y dylai’r cworwm fod yn un hanner (wedi’i dalgrynnu i fyny);
- na fydd cyfarfod yn gwneud cworwm os aelodau o un blaid yn unig sy’n bresennol; a
- lle na fydd cyfarfod yn gwneud cworwm wrth bleidleisio ar yr un mater mewn dau sesiwn olynol, na ddylai fod angen cworwm i bleidleisio ar y

mater yn y sesiwn nesaf, er y bydd angen cworwm i'r cyfarfod fynd yn ei flaen.[9]

**67.** Wrth esbonio'r argymhelliad, mae Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol yn nodi:

> Mewn pwyllgorau a niferoedd cymharol fach, yr ydym yn ymwybodol y gall cworwm a bennir yn rhy uchel neu a gymhwysir yn rhy llym effeithio ar lif y busnes.[10]

**68.** Wrth ymateb i argymhelliad y Grŵp Ymgynghorol yn ei adroddiad, dywedodd y Comisiwn Rheolau Sefydlog:

> The Advisory Group recommended that there should be two quorums for committees: one for the meeting to go ahead and one for voting. We felt that this two tier approach could be confusing, and that it was inconsistent that committees could be quorate to discuss a matter, but not to vote on it. Consequently, we have adopted the lower quorum (one third) for attendance and for voting. In light of the importance of inclusivity, we have retained the need for members of more than one political party to be present for a meeting to be quorate.[11]

**69.** Felly, roedd Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cyntaf yn pennu trothwy ar gyfer cworwm mewn cyfarfodydd pwyllgor ar ddau Aelod neu un rhan o dair o nifer aelodau'r pwyllgor (gan gynnwys y cadeirydd), pa un bynnag oedd fwyaf.

**70.** Newidiwyd y Rheol Sefydlog wedyn i'w ffurf bresennol yn y Trydydd Cynulliad, pan gynyddwyd y trothwy i dri Aelod - neu un rhan o dair o aelodau'r pwyllgor, pa un bynnag yw'r mwyaf.

**71.** Mae'r Rheol Sefydlog sy'n ymwneud â chworwm pwyllgorau wedi effeithio ar drafodion pwyllgorau ar sawl achlysur, gydag enghreifftiau'n cynnwys:

---

[9] Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol, Adroddiad i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Awst 1998, paragraff 41
[10] Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol, Adroddiad i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Awst 1998, paragraff 41
[11] Adroddiad y Comisiwn Rheolau Sefydlog, Ionawr 1999, tudalen 2

- Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau yn agor ac yna'n gohirio cyfarfod i ddisgwyl i drydydd aelod gyrraedd gan nad oedd cworwm yn y cyfarfod (17 Gorffennaf 2018); ac
- Y Pwyllgor Menter, Arloesi a Sgiliau yn dechrau cyfarfod 10 munud yn hwyr gan nad oedd cworwm yn y pwyllgor (11 Gorffennaf 2019).

**72.** Ym mis Medi 2019, trafododd y Pwyllgor Busnes lythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Menter, Arloesi a Sgiliau - yr wythnos flaenorol, nid oedd modd i gyfarfod y pwyllgor ddechrau ar amser a sicrhau bod cworwm gan fod rhai o'r Aelodau'n rhedeg yn hwyr. Ategodd Rheolwyr Busnes yr angen i Aelodau fynychu pwyllgorau ac i fod yn brydlon, yn enwedig gan fod aelodaeth y pwyllgorau polisi a deddfwriaeth wedi ei leihau i chwe Aelod, a chytunwyd pe na bai'r broblem yn gwella y byddent yn ystyried cyhoeddi ffigurau presenoldeb unigolion. Cytunodd y Rheolwyr Busnes hefyd fod gan gadeiryddion rôl o ran siarad ag Aelodau nad ydynt yn mynychu neu sy'n cyrraedd yn gynnar/hwyr heb esboniad.

## Ein barn ni

Gwnaethom ysgrifennu at Fforwm y Cadeiryddion i ofyn ei farn, wrth baratoi ar gyfer Seithfed Senedd fwy, ynghylch a ddylai'r trothwy rhifol o dri Aelod (a bennir yn Rheol Sefydlog 17.31):

- aros fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd; neu
- gael ei ddiwygio i rif gwahanol.

Yn ei hymateb i'n llythyr, cadarnhaodd y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, Cadeirydd Fforwm y Cadeiryddion, farn y Fforwm, sef y dylai'r trothwy a bennir ar hyn o bryd yn Rheol Sefydlog 17.31 aros fel y'i drafftiwyd.

Yn ei ymateb i'n hymgynghoriad, dywedodd Grŵp Plaid Cymru yn y Senedd hefyd y byddai'n "ffafrio peidio addasu'r Rheol Sefydlog hon."[12]

[12] Ymateb i'r ymgynghoriad gan Grŵp Senedd Plaid Cymru, 11 Rhagfyr 2024

Ni welwn unrhyw reswm i anghytuno â chasgliad Fforwm y Cadeiryddion a Grŵp Plaid Cymru yn y Senedd ac felly rydym yn cytuno y dylai Rheol Sefydlog 17.31 aros fel y’i drafftiwyd.

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Rheol Sefydlog 17.31, sy’n ei gwneud yn ofynnol bod rhaid datgan nad oes cworwm i gyfarfod pwyllgor os bydd llai na thri Aelod, neu lai na thraean o nifer aelodau’r pwyllgor, yn bresennol, yn aros fel y’i drafftiwyd.

# 11. Aelodaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (Rheol Sefydlog 18.5)

**73.** Mae Rheol Sefydlog 18.5 yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (a elwir y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar hyn o bryd) “gynnwys o leiaf 5 aelod a dim mwy na 10 aelod”.

**74.** Gan gyfeirio at Ddeddf 1998, dywedodd Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol yn ei adroddiad:

Mae Adran 54(2)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob pwyllgor, onid pwyllgorau ymgynghorol ydynt, adlewyrchu cydbwysedd y pleidiau gwleidyddol cyn belled ag y bo'n ymarferol. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheolau sefydlog bennu nifer yr aelodau sydd ar bwyllgorau pwnc, y Pwyllgor Archwilio a'r pwyllgor archwilio deddfwriaeth isradd. Argymhellwn fod y rheolau sefydlog yn pennu y dylai nifer yr aelodau ar y pwyllgorau hyn fod yn yr amrediad 7 i 11. Yr ydym yn rhagweld y dylai amrediad o 7 i 11 ganiatáu cydbwysedd rhesymol rhwng y pleidiau fel rheol. Ystyr "cyn belled ag y bo'n ymarferol" yw lle nad yw'n fathemategol bosibl sicrhau cydbwysedd manwl-gywir rhwng y pleidiau, mewn pwyllgor bach, y dylai'r pwyllgor gael ei gyfansoddi mor agos â phosibl i gydbwysedd y pleidiau. Nid yw'r cafeat hwn yn caniatáu osgoi cydbwysedd y pleidiau. Os bydd y Cynulliad yn penderfynu nad yw cydbwysedd pleidiau'n angenrheidiol ar gyfer pwyllgor penodol (er enghraifft y pwyllgorau rhanbarth, Pwyllgor y Llywydd), rhaid i'r pwyllgor fod yn ymgynghorol ei natur yn unig.

**75.** Felly, roedd Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cyntaf yn cynnwys darpariaeth yn unol â'r argymhelliad hwn, gan sicrhau bod gan y Pwyllgor Archwilio rhwng saith ac un ar ddeg o aelodau.

**76.** Mae adran 30(2) o Ddeddf 2006 bellach yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Archwilio fod â’r nifer o Aelodau a nodir yn y Rheolau Sefydlog.

**77.** Roedd Rheolau Sefydlog y Trydydd Cynulliad yn nodi bod rhaid i'r Pwyllgor Archwilio gynnwys deg Aelod. Fodd bynnag, diweddarwyd y ddarpariaeth hon yn y Pedwerydd Cynulliad i'w ffurf bresennol - lle mae'n rhaid i'r Pwyllgor fod â rhwng pump a deg aelod erbyn hyn.

**78.** Mae'n debygol bod y gofyniad presennol (rhwng pump a deg aelod) wedi'i gyflwyno i ganiatáu digon o hyblygrwydd i'r Senedd, ac i gyfrif am gyfrifoldebau/llwyth gwaith cynyddol y Senedd, ac mae'r trothwyon isaf ac uchaf wedi'u gostwng o gymharu â'r niferoedd gwreiddiol (saith ac un ar ddeg).

## Ein barn ni

O ystyried cynnwys y Rheol Sefydlog hon, gwnaethom ysgrifennu at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i ofyn ei farn, wrth baratoi ar gyfer Seithfed Senedd fwy, ynghylch a ddylai’r trothwyon rhifol a nodir yn Rheol Sefydlog 18.5:

- aros fel y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd; neu
- gael eu diwygio i rifau gwahanol.

Yn ei ymateb i’n llythyr, dywedodd Mark Isherwood AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, fod y Pwyllgor wedi dod i’r casgliad y dylai Rheol Sefydlog 18.5 aros fel y’i drafftiwyd.

Ni welwn unrhyw reswm i anghytuno â chasgliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac felly rydym yn cytuno y dylai Rheol Sefydlog 18.5 aros fel y’i drafftiwyd.

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Rheol Sefydlog 18.5, sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r “Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus” gynnwys o leiaf pum Aelod a dim mwy na deg Aelod, yn aros fel y’i drafftiwyd.

# 12. Cynigion am Orchymyn gan Aelod heblaw aelod o'r Llywodraeth (Rheol Sefydlog 25.28)

**79.** Mae Rheol Sefydlog 25 yn nodi'r weithdrefn y mae'n rhaid ei dilyn mewn perthynas â thrafod Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor sydd i'w gwneud o dan adran 109 o Ddeddf 2006.

**80.** Mae adran 109 o Ddeddf 2006 yn caniatáu i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd gael ei newid drwy ddiwygio Atodlen 7A a/neu 7B i Ddeddf 2006.

**81.** Rhaid i'r Pwyllgor Busnes gyfeirio cynnig a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 25.26 at bwyllgor (neu bwyllgorau) i'w ystyried os bodlonir tri amod - rhaid i'r cynnig gael cefnogaeth o leiaf:

- Ddeg Aelod;
- Tri grŵp gwleidyddol gwahanol; ac
- Un Aelod o grŵp sydd â rôl weithredol.

**82.** Hyd yma, nid oes unrhyw gynnig wedi’i gyflwyno o dan Reol Sefydlog 25.26.

## Ein barn ni

Ni chawsom unrhyw dystiolaeth i awgrymu y dylid diwygio’r Rheol Sefydlog hon ac, felly, credwn y dylai aros fel y’i drafftiwyd.

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod Rheol Sefydlog 25.28, sy’n nodi’r amodau sy’n ei gwneud yn ofynnol, os cânt eu bodloni, i’r Pwyllgor Busnes gyfeirio cynnig a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 25.26 i bwyllgor (neu bwyllgorau) i’w ystyried, yn aros fel y’i drafftiwyd.

# 13. Ail-wneud y Rheolau Sefydlog a’u Diwygio (Rheol Sefydlog 33.1)

**83.** Pan sefydlwyd y Cynulliad, roedd adran 46 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn atal Rheolau Sefydlog rhag cael eu diwygio oni bai bod dwy ran o dair o'r

rhai a oedd yn pleidleisio yn cefnogi cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog. Yn ei adroddiad, argymhellodd Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol fel a ganlyn:

> y dylai fod yn ofynnol i gynigion gan aelodau unigol ynghylch newidiadau i'r rheolau sefydlog sicrhau cefnogaeth chwe Aelod o'r Cynulliad i gael ei drafod.[13]

**84.** Gan esbonio ei argymhelliad, dywedodd Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol:

> Wrth lunio'n hargymhellion ynghylch newidiadau i reolau sefydlog y Cynulliad, yr oedd gennym ddau amcan mewn golwg:
>
> • y dylid rhoi ystyriaeth ofalus i newidiadau cyn eu cynnig; ac
>
> • y dylai Aelodau unigol o'r Cynulliad gael cyfle i gynnig newidiadau.
>
> Yn ychwanegol at fesur diogelu y gofyniad ynghylch mwyafrif o ddau draean ar gyfer cymeradwyo diwygiadau, argymhellwn y dylai newidiadau arfaethedig i'r rheolau sefydlog gael eu hadolygu gan bwyllgor y Llywydd a fyddai'n gallu ystyried effaith y newidiadau a sicrhau na fyddent yn arwain at set ddiffygiol neu ddigyswllt o reolau sefydlog. Yn wyneb y ffaith bod angen mwyafrif o ddau draean ar gyfer pasio diwygiadau, Argymhellwn y dylai cynigion ar gyfer newidiadau i'r rheolau sefydlog a gynigir gan aelodau unigol sicrhau cefnogaeth o leiaf chwe Aelod cyn y gellir eu trafod.[14]

**85.** Felly, mae'r trothwy chwe Aelod mewn perthynas ag unrhyw gynnig i ail-wneud y Rheolau Sefydlog neu ddiwygio'r Rheolau Sefydlog wedi'i gynnwys yn y Rheolau Sefydlog ers y Cynulliad Cyntaf.

**86.** Mae'n werth nodi bod esboniad y Grŵp Ymgynghorol o'r trothwy yn awgrymu iddo gael ei argymell yn wreiddiol oherwydd y ffaith bod angen

---

[13] Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol, Adroddiad i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Awst 1998, paragraff 15
[14] Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol, Adroddiad i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Awst 1998, paragraff 3.11

mwyafrif o ddwy ran o dair. Felly, mae'n debygol mai diben y trothwy chwe Aelod yw gosod bar cymharol uchel i drafod unrhyw gynnig, o gofio bod angen mwyafrif o ddwy ran o dair ar unrhyw gynnig o'r fath er mwyn iddo gael ei gytuno.

**87.** Dim ond unwaith y mae cynnig i ail-wneud/diwygio Rheolau Sefydlog wedi methu - yn 2002, ni lwyddodd cynnig ar gyfer Rheol Sefydlog newydd yn ymwneud â'r Seiri Rhyddion i gyflawni'r mwyafrif o ddwy ran o dair. Mae pob cynnig arall i ail-wneud/diwygio'r Rheolau Sefydlog wedi'i gytuno heb drafodaeth (neu'n electronig).

**88.** Mae'r trothwy presennol a bennir yn Rheol Sefydlog 33.1 yn cyfateb i 10 y cant o aelodaeth bresennol y Senedd.

**89.** Yn ei ymateb i'n hymgynghoriad, dywedodd Grŵp Plaid Cymru:

> *[...] dylid cynyddu'r trothwy hwn ar gyfer gofyn i'r Pwyllgor Busnes ystyried ac adrodd ar unrhyw gynnig i ail-wneud a diwygio'r Rheolau Sefydlog yn gymesur (h.y. i 10% sef 10 Aelod).*

## Ein barn ni

Credwn y dylai'r trothwy hwn aros ar 10 y cant o aelodaeth y Senedd, sy'n golygu y dylid ei gynyddu o chwe Aelod i ddeg Aelod.

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod Rheol Sefydlog 33.1 yn cael ei diwygio i'w gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Busnes ystyried unrhyw gynnig a wnaed iddo gan o leiaf ddeg Aelod i ail-wneud neu ddiwygio'r Rheolau Sefydlog, a chyflwyno adroddiad ar y cynnig hwnnw.